

## Tasg 2

### Anifeiliaid anwes aelodau'r dosbarth

1. Gwnewch holiadur i weld beth ydy anifeiliaid anwes aelodau'r dosbarth.
2. Defnyddiwch yr holiadur – gofynnwch y cwestiynau i aelodau'r dosbarth.
3. Gwnewch graff neu siart gylch i ddangos y canfyddiadau.
4. Eglurwch y canfyddiadau, e.e.

Yn y Gogledd ...	Yn y De ...
Mae gan chwech o'r dosbarth gath.	Mae cath gyda chwech o'r dosbarth.
Mae gan ddeg o'r dosbarth gi.	Mae ci gyda deg o'r dosbarth.
Mae gan un person fochyn cwta.	Mae mochyn cwta gydag un o'r dosbarth.
Does gan neb lew.	Does dim llew gyda neb.

